

 www.furthermaths.org.uk/wales		
Astudiaeth Achos	Ysgol Brynhyfryd	
Cyfeiriad	Ffordd Yr Wyddgrug, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1EG	
Nifer o fyfyrwyr oedran 16 – 18 2013/14		
<p>Astudiaeth Achos: Athro – Colin Fleming, <i>Pennaeth Mathemateg</i></p>		

Darparu Mathemateg Bellach:

Penderfynais gyflwyno Mathemateg Bellach AS i grŵp arbennig o abl ochr yn ochr â'u Mathemateg A2 dim ond drwy ddefnyddio yr amser a ddyrennir i A2 a sesiynau amser cinio achlysurol. Ar yr adeg hon deuthum ar draws safle FMSP Cymru a'u hadnoddau. Cafodd y 5 myfyrwyr a safodd yr arholiad gradd A mewn Mathemateg Bellach AS a mynychodd 2 arall rhai o'r gwersi ychwanegol gan eu bod yn mwynhau'r her ychwanegol ond nid oeddent eisiau'r ymrwymiad o arholiad ychwanegol.

Llwyddwyd i amserlennu Mathemateg Bellach ar gyfer blwyddyn 13 y flwyddyn ganlynol a dilynodd 9 o fyfyrwyr y cwrs. Eisteddodd 6 o fyfyrwyr yr AS a cafodd pob un radd A. Dilynodd tri o'r myfyrwyr modiwl FP1 yn unig er mwyn gwella eu mathemateg A2. Gweithodd hyn oherwydd cafodd ddau A* a'r llall gradd A.

Yn dilyn toriadau cyllideb y flwyddyn ganlynol ni chafodd y cwrs ei gynnig yn fewnol. Defnyddwyd y rhaglen FMSP gyda thiwtor yn dod i'r ysgol i addysgu 3 myfyrwyr blwyddyn 13.

Eleni mae tiwtor wedi bod yn dod i mewn i'r ysgol i addysgu 3 myfyriwr o flwyddyn 13 sy'n bwriadu mynd ymlaen i astudio Ffiseg a Pheirianeg. Maent i gyd wedi gweld trylwyredd ychwanegol y cwrs o fudd i'w hastudiaeth Mathemateg Lefel A yn ogystal â darparu sylfaen ehangach ar gyfer astudio yn y dyfodol.

Manteision Astudio Mathemateg Bellach?

- Mae cyflwyno Mathemateg Bellach ar lefel UG yn ymddangos yn fwyfwy pwysig. Byddai o fudd i unrhyw fyfyrwr sy'n bwriadu dilyn gradd mewn pwnc STEM a byddai technegau ystadegol hefyd yn cefnogi Daearyddiaeth a Seicoleg a byddai mecaneg yn cefnogi Ffiseg ac yn baratoad da ar gyfer Peirianeg.
- Roedd y myfyrwyr yn eu gweld adnoddau FMSP yn hynod fuddiol.
- Mae'r myfyrwyr wedi gweld trylwyredd ychwanegol y cwrs o fudd i'w hastudiaeth Mathemateg Lefel A yn ogystal â darparu sylfaen ehangach ar gyfer astudio yn y dyfodol.
- Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, mae myfyrwyr wedi mynychu diwrnodau astudio a sesiynau adolygu a ddarperir gan FMSP ym Mhrifysgol Bangor sydd wedi cyfnerthu eu gwybodaeth yn ardderchog.
- Mae FMSP Cymru hefyd yn cynyddu cyrsiau DPP a fydd yn datblygu sgiliau staff mathemateg ac o ganlyniad yn cyfoethogi mathemateg a ddysgir yn ein hysgolion.
- Rwy'n teimlo ei bod yn hanfodol bod y FMSP cael ei estyn i Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam er mwyn darparu catalydd sy'n sicrhau bod pob myfyrwr yn cael y cyfle i ddatblygu eu medrau mathemategol ymhellach ac o ganlyniad fod â gweithlu mwy medrus yng Nghymru.